Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Canllawiau ar fynegi pryderon

Chwefror 2012

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol yw'r corff rheoleiddio ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferyllol wedi eu cofrestru yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Rhan o'n swyddogaeth yw gosod safonau sy'n llywodraethu ymarfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Mae'r mater o fynegi pryder wedi bod wrth galon nifer o achosion amlwg dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, yn cynnwys yr ymchwiliad i Ysbyty Brenhinol Bryste ac Ymchwiliad Shipman. Mewn dau adroddiad cyhoeddus[1] tynnodd y Pwyllgor Dethol ar Iechyd sylw at bwysigrwydd y cyfle sydd gan weithwyr iechyd proffesiynol i fynegi pryderon. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn darparu canllawiau ar y mater hwn i dechnegwyr fferyllol a fferyllwyr. Rhaid i ni ddysgu o'r gorffennol ac o brofiadau rheolyddion eraill.

Ynghylch y canllawiau hyn

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad y mae'n rhaid i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol eu dilyn yn eu gwaith.

Canllaw i weithwyr fferyllol proffesiynol yw'r ddogfen hon, i gyd-fynd â safonau 1.2, 2.4 a 7.11 y safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad, sy'n nodi:

- Rhaid i chi weithredu er diogelwch lles cleifion a'r cyhoedd.
- Rhaid i chi fod yn fodlon herio barn cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill os credwch y gallai eu penderfyniadau effeithio ar ddiogelwch neu ofal pobl eraill.
- Rhaid i chi hysbysu'r awdurdod perthnasol am unrhyw bolisïau, systemau, amodau gwaith, neu weithredoedd, perfformiad proffesiynol neu iechyd pobl eraill os teimlwch y gallent effeithio'n andwyol ar ofal cleifion neu ddiogelwch y cyhoedd. Os oes rhywbeth yn mynd o chwith neu os oes rhywun yn mynegi gofid i chi, sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael ag ef mewn dull priodol.

[1] http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/health-committee/news/11-07-26-nmcreportpublished/

Statws y canllawiau hyn

Canllawiau i weithwyr fferyllol proffesiynol ar sut i fynegi pryderon sydd yn y ddogfen hon. Mae'r canllawiau yn egluro pwysigrwydd mynegi pryderon a'r camau y bydd angen i weithiwr fferyllol proffesiynol ystyried eu dilyn.

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol yn benodol i gyflogwyr. Mae hefyd, yn adran 6, fanylion cyswllt ar gyfer sefydliadau a allai fod o gymorth pellach i chi.

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dilyn polisïau'r Gwasanaeth Iechyd Lleol yn eich ardal chi ynghylch mynegi pryderon, a'ch bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a allai ddigwydd. Rhaid i chi hefyd sicrhau bod y staff sydd o dan eich gofal chi yn ymwybodol o'r canllawiau yn y ddogfen hon ac yn derbyn hyfforddiant addas.

1 Pwysigrwydd mynegi pryderon

Mae'n ddyletswydd ar bob gweithiwr fferyllol proffesiynol i fynegi pryderon am unigolion, gweithredoedd neu amgylchiadau a allai fod yn annerbyniol ac a allai arwain at risg i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd.

1.1 Mae gennych gyfrifoldeb proffesiynol i weithredu er diogelu lles cleifion a'r cyhoedd. Rhan allweddol o'r cyfrifoldeb hwn yw bod yn fodlon mynegi pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol unigol, y staff yr ydych chi'n gweithio gyda nhw (yn cynnwys rhai dan hyfforddiant), pobl eraill a gyflogir a'r amgylchedd yr ydych chi'n gweithio ynddo.

1.2 Mae hyn yn cynnwys adrodd a mynegi pryderon am ofidiau sydd gennych am y bobl yr ydych chi'n dod ar eu traws wrth weithio, yn cynnwys fferyllwyr, technegwyr fferyllol, perchenogion, rheolwyr a chyflogwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, fel gofalwyr, staff cartrefi gofal neu weithwyr allweddol. Mae'n cynnwys pryderon am ymddygiad, galluoedd, amgylchedd gwaith ac unrhyw weithredoedd a allai effeithio'n andwyol ar ddiogelwch cleifion.



1.3 Rydyn ni'n sylweddoli y gallai mynegi pryderon fod yn anodd i chi, am nifer o resymau. Gallech fod yn poeni:

- y bydd yn creu problemau i gydweithwyr
- y bydd yn effeithio'n andwyol ar eich gyrfa
- y bydd perthnasau gwaith yn dirywio
- y bydd pobl am ddial
- y bydd eich pryder yn cael ei anwybyddu a dim byd yn digwydd yn ei sgil.

Gall mynegi pryderon yn gynnar fod o gymorth i weld pa feysydd ymarfer y gellir eu gwella. Mae'n galluogi cyflogwyr, rheolyddion ac awdurdodau eraill i wella pethau'n gyflym a chyn i gleifion a'r cyhoedd gael eu niweidio mewn unrhyw ffordd.

1.4 Rhaid i chi gofio:

- bod eich dyletswydd broffesiynol i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd goruwch unrhyw deyrngarwch neu ystyriaethau eraill
- y gallai methu â mynegi pryderon am ymarfer gwael arwain at niwed i gleifion
- Mae'r Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA) yn amddiffyn pobl sydd yn mynegi pryderon dilys ac sy'n datgelu 'camymarfer' yn y gweithle
- Petaech yn penderfynu peidio â mynegi pryderon sydd gennych am gydweithiwr neu berson arall, byddech yn torri'n safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad, a gallai hyn godi amheuon am eich addasrwydd chithau i ymarfer.

2 Sut i fynegi pryderon

Bydd y dull o fynegi pryderon yn amrywio, yn dibynnu ar:

- natur eich pryderon
- ynghylch pwy neu beth yr ydych yn pryderu, ac
- a ydych o'r farn bod cleifion neu'r cyhoedd yn wynebu perygl uniongyrchol.

Os nad ydych chi'n sicr sut i fynegi eich pryderon, dylech fynd ar ofyn un o'r sefydliadau a enwir yn adran 5 am gyngor.

Mae gennych gyfrifoldeb proffesiynol i fynegi pryderon dilys. Mae'n gyfrifoldeb arnoch p'un ai'ch bod chi'n gyflogwr, yn rhywun a gyflogir, yn locwm neu'n aelod dros dro o'r staff.

Dylech, fel arfer, fynegi'r pryderon wrth eich cyflogwr yn gyntaf, cyn mynd at reolydd neu gorff arall.

2.1 Chwiliwch am bolisi swyddogol eich sefydliad

Dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o bolisi eich cyflogwr ynghylch mynegi pryderon neu 'chwythu'r chwiban' a'i ddilyn pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

2.2 Adroddwch yn ddi-oed

Os ydych o'r farn bod perygl o farwolaeth neu niwed difrifol yn wynebu cleifion, neu fod posibilrwydd y gallai hynny ddigwydd, rhaid i chi fynegi'ch pryderon yn ddiymdroi.

2.3 Adroddwch wrth eich goruchwyliwr uniongyrchol

Bydd y person yr ydych chi'n mynegi'ch pryderon wrtho neu wrthi yn amrywio yn ôl natur eich pryderon. Byddwch yn gallu mynd at eich rheolwr llinell gan amlaf.

2.4 Adroddwch wrth berson priodol arall mewn safle o awdurdod neu wrth gorff allanol

Efallai y bydd sefyllfaoedd yn codi pan na fydd yn bosibl mynegi pryderon wrth eich rheolwr llinell. Mae'n bosibl mai nhw fydd wrth wraidd eich pryder, er enghraifft, neu efallai y byddant yn deyrngar iawn i'r rheiny sy'n eich pryderu. Mewn achosion fel y rhain, efallai y bydd gofyn i chi siarad â:

- pherson sydd wedi ei enwi fel yr un sydd â chyfrifoldeb dros ddelio â gofidiau
- uwch reolwr yn y sefydliad, er enghraifft prif fferyllydd, perchennog fferyllfa neu fferyllydd arolygol neu reolwr nad yw'n gyfrifol yn uniongyrchol am yr ochr fferyllol
- y darparwr gofal sylfaenol (yn cynnwys y swyddog atebol os mai ynghylch cyffuriau a reolir y mae eich pryder))
- y rheolydd proffesiynol[2]
- rheolydd systemau'r sefydliad[3].

2.5 Cadwch gofnod

Dylech gadw cofnod o'r pryderon sydd gennych, gyda phwy y trafodoch chi nhw, eu hymateb neu'r gweithredoedd a ddigwyddodd yn sgil eich pryder.

2.6 Cynnal cyfrinachedd

Os mai am berson penodol y mae'ch pryder, claf neu gydweithiwr er enghraifft, dylech, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, gadw cyfrinachedd a pheidio â datgelu gwybodaeth heb ganiatâd.

---

[2] Y rheolydd gofal iechyd yw: Cyngor Ceiropractig Cyffredinol; Cyngor Deintyddol Cyffredinol; Cyngor Meddygol Cyffredinol; Cyngor Optegol Cyffredinol; Cyngor Osteopathig Cyffredinol; Cyngor y Proffesiynau Iechyd; Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r Pharmaceutical Society of Northern Ireland. Y rheolyddion gofal cymdeithasol yw Cyngor Gofal Cymru; General Social Care Council yn Lloegr; Northern Ireland Social Care Council a'r Scottish Social Services Council.

[3] Mae'r rhain yn cynnwys, o fewn cyd-destun ysbytai, y Care Quality Commission yn Lloegr, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Healthcare Improvement Scotland a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol os mai am leoliad fferyllol cofrestredig y mae eich pryder.

3 Y gyfraith

Mae PIDA yn cynnwys cyfarwyddyd cam wrth gam ar sut i fynegi pryder a symud y broses honno yn ei blaen. Y bwriad yw eich amddiffyn rhag cael eich trin yn annheg neu ddialedd gan gyflogwr os ydych wedi datgelu rhywbeth er lles y cyhoedd.

Dywed PIDA y dylech fynegi pryder am faterion sydd wedi digwydd, neu y credwch yn rhesymol eu bod yn debygol o ddigwydd, ac sy'n cynnwys:

- perygl o niwed i iechyd neu ddiogelwch unigolyn (er enghraifft, dosbarthu cyffuriau yn anghyfrifol neu'n anghyfreithlon, cam-drin cleifion, neu pan fo iechyd neu addasrwydd gweithiwr proffesiynol yn ddiffygiol)
- trosedd neu dramgwydd sifil (er enghraifft, twyll, lladrad, neu ddargyfeirio cyffuriau yn anghyfreithlon)
- camweinyddu cyfiawnder
- niwed i'r amgylchedd
- cuddio gwybodaeth am unrhyw un o'r uchod.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Mae manylion cyswllt ffynonellau eraill o wybodaeth yn adran 6, os ydych yn pryderu am rywbeth ac yn ansicr ynghylch sut i'w fynegi, neu a ddylech wneud hynny o gwbl.

4 Canllawiau ychwanegol i gyflogwyr

Mae'n bwysig fod pawb a gyflogir yn gwybod am y gweithdrefnau i'w dilyn pan fo ganddynt bryderon am gydweithwyr neu'r sefydliad y maen nhw'n gweithio ynddo. Dylai fod gennych hefyd weithdrefnau i sicrhau eich bod yn gallu nodi pa bryderon sydd angen eu cyfeirio at gorff rheoleiddio fel ni. Diogelir cleifion drwy sicrhau bod gennych weithle sydd yn un agored, gyda staff sy'n gyffyrddus yn mynegi pryderon. Mae hyn yn helpu i ganfod a gwella ymarfer gwael.

4.1 Sicrhewch fod gennych bolisïau a gweithdrefnau teg a thrwyadl i fynd i'r afael â phryderon a fynegir wrthoch chi. Mae gofyn i'r polisïau a gweithdrefnau hyn fod ar gael i bob aelod staff.

4.2 Anogwch staff, yn cynnwys staff dros dro a locwm, i fynegi eu pryderon am ddiogelwch cleifion, yn cynnwys y risgiau a achosir gan gydweithwyr.

4.3 Sicrhewch eich bod yn cymryd pob pryder a fynegir wrthoch chi o ddifrif ac na ddielir mewn unrhyw ffordd ar y sawl a fynegodd y pryder.

4.4 Sicrhewch yr ymchwilir i bob pryder a fynegir a bod staff, yn cynnwys staff dros dro a locwm, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr achos yn gyson.

4.5 Sicrhewch fod gennych systemau yn eu lle sy'n cefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi mynegi pryderon, a chofiwch ymdrin ag unrhyw wybodaeth a roddir i chi yn gyfrinachol.

4.6 Deliwch yn briodol gyda phryderon a godir yn sgil methiant i gynnal safonau.

4.7 Sicrhewch fod gennych systemau yn eu lle i gefnogi'r gweithwyr fferyllol proffesiynol y mynegir y pryderon yn eu cylch, boed yn bryderon am eu perfformiad, eu hiechyd neu eu hymddygiad.

4.8 Cadwch gofnod o bryderon a fynegir a'r gweithredoedd a wnaed yn eu sgil.

4.9 Rhowch gofnodion am bryderon a fynegir i'r rheolwr neu'r fferyllydd arolygol er mwyn iddynt allu asesu lefel a natur y pryderon a fynegir yn eu cyfanrwydd.

4.10 Peidiwch ag atal neb rhag mynegi pryder.

5 Ble i gael mwy o gyngor

I gael rhagor o wybodaeth am y PIDA a sut i fynegi pryderon o dan y ddeddfwriaeth hon, efallai y byddwch am gysylltu â'r elusen Pryderon Cyhoeddus yn y Gweithle (PCaW). Elusen annibynnol yw hon, sy'n rhoi cyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim i bobl pan fônt yn ansicr sut i fynegi pryder am 'gamymarfer' yn y gweithle, neu a ddylent wneud hynny o gwbl.

Os nad ydych yn sicr sut i fynegi pryder, dylech ofyn am gyngor gan:

- uwch aelodau staff eich sefydliad
- y swyddog atebol, os mai am gyffuriau a reolir y mae'ch pryder
- eich darparwr yswiriant indemniad proffesiynol, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall
- y Cyngor Fferyllol Cyffredinol neu, os mai am gydweithiwr mewn proffesiwn gofal iechyd arall yr ydych chi'n pryderu, y corff rheoleiddio priodol
- yr elusen Cefnogaeth i Fferyllwyr
- eich undeb
- ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol.

6 Ffynonellau gwybodaeth eraill

Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU (APTUK)
One Victoria Square,
Birmingham B1 1BD
Ffôn: 020 7121 5551
www.aptuk.org

Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd (GHP)
Health Sector, Unite the Union,
Unite House, 126 Theobald's Road,
Llundain WC1X 8TN
Ffôn: 0203 371 2009
www.ghp.org.uk
www.ghpscot.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol y Fferyllwyr (NPA)
Mallinson House, 38-42 St Peter's Street,
St Albans AL1 3NP
Ffôn: 01727 858687
www.npa.co.uk

Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban
Ffôn: 08000 724 725

Cymdeithas Amddiffyn Fferyllwyr (PDA)
The Old Fire Station, 69 Albion Street,
Birmingham B1 3EA
Ffôn: 0121 694 7000
www.the-pda.org

Cefnogaeth i Fferyllwyr
Ffôn: 0808 168 2233 (rhadffôn)
www.pharmacistsupport.org

Pryderon Cyhoeddus yn y Gweithle (PCaW)
Ystafell 301, 16 Baldwins Gardens,
Llundain EC1N 7RJ
Ffôn: 020 7404 6609
www.pcaw.co.uk

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)
1 Lambeth High Street, Llundain SE1 7JN
Ffôn: 0845 257 2570
www.rpharms.com

UNISON
UNISON Centre, 130 Euston Road,
Llundain NW1 2AY
Ffôn: 0845 355 0845
www.unison.org.uk

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gopïau o'r ddogfen hon yn Saesneg, ewch i www.pharmacyregulation.org/standards/guidance lle gallwch lawrlwytho PDF. Os ydych am gael dogfen mewn fformat arall, cysylltwch â'n tîm cyfathrebu: communications@pharmacyregulation.org

Os oes gennych gwestiynau am, neu sylwadau ar, gynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â'n Tîm Safonau:

Y Tîm Safonau
Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

Ffôn: 020 3713 8000
E-bost: standards@pharmacyregulation.org

Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu canllawiau eraill a allai fod o ddefnydd i chi:
www.pharmacyregulation.org/standards/guidance

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

Ffôn: 020 3713 8000

www.pharmacyregulation.org

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2014

cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan wearetangerine.co.uk 01622 623790